



Digwyddiadau Busnes – geirfa a chanllaw defnyddiol i'ch helpu

Mae'r ddogfen hon yn eirfa ac yn ganllaw i'ch helpu i ddeall rhai o'r termau sy'n cael eu defnyddio bob dydd yn y diwydiant digwyddiadau busnes.

Beth yw Digwyddiadau Busnes?

Mae'r diwydiant digwyddiadau busnes yn amrywio o fusnesau bach un-person i gwmnïau mawr, ond yr hyn sy'n eu nodweddu yw bod angen angerdd, profiad a chreadigedd arnynt i allu delio â chymhlethdodau trefnu digwyddiadau busnes, boed ar gyfer dyrnaid o bobl neu ar gyfer torf o filoedd. Mae gofyn trefnu pob elfen o'r digwyddiad, gan gynnwys dewis a llogi lleoliad, gofalu am y cynrychiolwyr a threfnu'r rhaglen, y teithio, y cyllido a'r arian, y llety, y bwyd a'r ddiod a'r profiadau. Mae disgwyl i drefnydd digwyddiadau ofalu am yr holl rhannau gwahanol, gyda chymorth y lleoliad a'r cynnyrch.

“Mae trefnu digwyddiadau busnes yn golygu darparu cyfleusterau a gwasanaethau i'r miliynau o gynrychiolwyr sy'n mynd i gyfarfodydd, cyngresau, arddangosfeydd, digwyddiadau busnes, teithiau cymell a lletygarwch corfforaethol”. (Ffynhonnell: ICCA).

Mae digwyddiadau busnes yn llwyfan i'r sector ac yn defnyddio seilwaith twristiaeth.
Mae digwyddiadau busnes yn creu elw.
Mae digwyddiadau busnes yn sbardun i ragor o fusnes.
Mae digwyddiadau busnes yn tyfu'n gyflym.

Beth yw ystyr MICE?

Acronym yw MICE sy'n cael ei ddefnyddio yn y byd digwyddiadau busnes – **M**eetings, **I**ncentives, **C**onferences ac **E**vents/ **E**xhibitions

Beth yw cyfarfod?

Mae cyfarfod yn digwydd pan fydd nifer o bobl yn dod ynghyd yn yr un lle, i drafod neu i gynnal gweithgaredd o ryw fath. Gall fod ar batrwm ad-hoc neu sefydlog e.e. cyfarfod cyffredinol blynyddol neu gyfarfod pwyllgor. Gall cyfarfod fod mor fach â 10 o bobl. Yn y cyd-destun hwn, bydd cyfarfod:

- yn para fwy na 4 awr
- yn cynnwys costau teithio, llety a bwyd i'r cynrychiolydd.

Beth yw Cymdeithas?

Mae yna gymdeithas ar gyfer popeth! Mae Cymdeithasau Cenedlaethol fel arfer yn cynnal cynhadledd flynyddol ar gyfer eu haelodau ac gall cynadleddau Cymdeithasau Rhyngwladol groesawu aelodau o bob cwr o'r byd. Mae digwyddiadau cymdeithasau'n gallu amrywio yn eu maint o ryw 250-400 o bobl i ddigwyddiadau blynyddol ar gyfer 1,500-2,000 o gynrychiolwyr. Pan fydd cymdeithas yn cynnal digwyddiad, bydd ganddi anghenion penodol, gan gynnwys lle i gynnal cyfarfod llawn wrth agor a chau'r gynhadledd ac yna ystafelloedd i gynnal sesiynau llai. Bydd y digwyddiadau'n para fel arfer ryw 2 – 3 diwrnod. Mae busnes cymdeithasau'n dda i Gymru gan fod cysylltiad cryf rhwng y prif sectorau blaenoriaeth, y byd academaidd a'r sector meddygol.

Beth yw Cwmni Corfforaethol (Corporate)?

Mae cwmni corfforaethol yn gwmni proffesiynol sy'n cynnal rhaglenni corfforaethol ar gyfer ei gyflogwr. Mae RBS yn enghraifft, yn trefnu ac yn cynnal cyfarfodydd ar gyfer brandiau bancio gwahanol h.y. Nat West, Black Horse ac ati. Yn aml iawn, bydd gan y cwmnïau corfforaethol mwyaf eu timau trefnu digwyddiadau a theithiau eu hunain. Bydd rhai eraill yn cyflogi asiantaethau corfforaethol i gynnal a rheoli rhaglenni ar eu rhan.

Beth yw Asiantaeth?

Mae Asiantaeth yn gwmni sy'n gweithio ar ran cleient corfforaethol i chwilio am leoliadau, llety, a phrofiadau ar lawr gwlad *. Fel arfer, byddant yn cael ffi sylfaenol am wneud ac yn hawlio comisiwn fesul lleoliad a stafell wely a werthir fel rhan o'r pecyn y maen nhw'n ei drefnu. Mae asiantaethau'n gweithio fel trydydd parti ac yn disgwyl rhannu comisiynau wrth weithio gyda Biwro Confensiynau.

*Mae "profiadau tir" (Ground Experiences) yn cael eu trin fel arfer gan Gwmnïau Rheoli Cyrchfannau (DMCs) sy'n gofalu am bob rhan o'r trefniadau ar lawr gwlad fel llety, atyniadau, bwyd a diod, teithio o fewn y gyrchfan, gwybodaeth a chroesawu.

Beth yw Rhaglen Gymell (Incentive)?

Rhaglen yw Rhaglen Gymell, ar gyfer busnesau, fel arfer gyda chymorth DMC. Mae'r rhaglenni'n gwobrwyo cyflogedigion am eu perfformiad. Trip ar gyfer y gweithiwr a'i briod neu grŵp bychan yw'r "cymhelliad" yn aml. Gall amrywio o wyliau penwythnos neu wyliau pecyn cymhleth. Nodwch, nid yw'r trip bob tro'n seiliedig ar wobrwyo'r gweithiwr. Mae'n aml yn cael ei ddefnyddio fel term cyffredinol ar gyfer trip busnes drud.

Beth yw Taith Gymell (Incentive Travel)?

Pecyn teithio sydd wedi'i lunio'n benodol yn aml fel gwobr i enillydd rhaglen gymell i gydnabod gwaith da neu deyrngarwch. Mae'r cylch o'r gwerthu i'r darparu yn un hir. Hynny yw, mae bwch hir o amser rhwng bwcio a chynnal y daith. Fel arfer, trefnir teithiau arbennig drud gan DMC lleol, i greu rhaglenni ar gyfer cwmni/asiantaeth y rhaglen gymell.

Beth yw Cynhadledd?

Mae cynhadledd yn cael ei threfnu yn unol ag agenda benodol iawn. Mae nifer y cynrychiolwyr yn amrywio o 150 i 5,000+. Rhyw 300-400 o bobl sy'n dod i gynhadledd gyffredin ym Mhrydain, a bydd yn para 2 i 3 diwrnod. Mae cynadleddau blynyddol yn tueddu i fod yn fwy, gyda rhyw 1,500+ o bobl. Gellir trefnu cynhadledd ar lefel Brydeinig, Ewropeaidd, Rhyngwladol a Byd-eang.

Beth yw Cyngres?

Cyfarfod yw cyngres fel arfer, sy'n denu nifer dda o bobl broffesiynol sydd wedi talu cyfraniad ariannol. Mae cyngresau'n gallu cael eu trefnu ar gyfer miloedd o bobl.

Beth yw Confensiwn?

Mae confensiwn yn gyfarfod sy'n cael ei alw gan gwmni, grŵp proffesiynol neu sefydliad er mwyn rhannu gwybodaeth neu brofiad am ddiddordeb arbennig. Mae confensiynau yn aml yn cael eu trefnu unwaith bob cyfnod rheolaidd, ar gyfer, er enghraifft, aelodau cwmni, rhwydwaith dosbarthu, gweithwyr gwerthu neu gymdeithas.

Beth yw Biwro Confensiynau?

Corff di-elw yw CVB neu "Convention and Visitors Bureau", sy'n hyrwyddo cyrchfannau, ei rhinweddau a'i sgiliau ym maes trefnu seminarau, confensiynau a chyngresau. Mae Biwro Confensiynau'n tueddu i gynnig y gwasanaethau di-dâl canlynol:

- Dewis lleoliad
- Gwasanaeth trefnu llety ar-lein ar gyfer cynadleddau
- Ymweliadau cynefino
- Paratoi dogfennau bidio a chyflwyniadau
- Mynediad a thrafnidiaeth leol
- Teithiau/rhaglenni cymdeithasol
- Gwasanaethau cymorth
- Gwybodaeth i gynrychiolwyr
- Trefnu grantiau neu cymorthdal tuag at y digwyddiadau

Beth yw PCO?

PCO – Trefnydd Cynadleddau Proffesiynol. Cwmnïau sydd â sgiliau ac arbenigeddau yn y maes trefnu cynadleddau. Mae PCO yn trefnu pob agwedd ar gynadleddau a chyngresau rhyngwladol mawr sy'n teithio trwy'r byd ar gylchdro. Mae PCOs yn gwybod am y ddeddfwriaeth sy'n ymdrin â digwyddiadau, yn enwedig o safbwynt cynadledda rhyngwladol a fferyllol, TAW a chynlluniau hawlio arian yn ôl.

Beth yw DMC?

DMC – Cwmni Rheoli Cyrchfannau. Asiantaeth neu gwmni lleol sy'n trefnu teithiau ac yn croesawu grwpiau. Y DMC sy'n trefnu'r llety, y cludiant lleol, y bwyd, y tywyswyr a'r tripiâu, a hefyd y staff dros dro ar gyfer y digwyddiad. Rôl y DMC yw chwilio am leoliadau, manau cynnal a safleoedd newydd, trefnu ciniawau gala a gweithgareddau ar gyfer rhaglenni cymell.

Mae cwmnïau DMC yn cynnig gwasanaethau ac arbenigeddau rheoli llawn ar gyfer cyfarfodydd corfforaethol, rhaglenni cymell, cynadleddau a digwyddiadau. Maen nhw'n llunio, cynllunio a chynnal teithiau arbennig ar gyfer trefnwyr cyfarfodydd corfforaethol tramor a chwmnïau rhaglenni cymell, neu'n delio'n uniongyrchol â'r cwmni.

Mae rhai DMCs yn cynnig trefnu cynadleddau bach a rheoli rhai agweddau ar gynhadledd fwy mewn cydweithrediad â PCO. Gallai olygu trefnu'r rhaglen gymdeithasol, cinio'r gynhadledd, tripiâu cyn ac ar ôl y gynhadledd, cludiant i/o'r maes awyr a gwasanaethau cofrestru.

Beth yw Cymorth "Subvention"?

Yn y cyd-destun hwn, ystyr "subvention" yw pan fydd cyrchfan yn cynnig cymorth ariannol, disgownt neu rywbeth arall i ddenu trefnydd cynhadledd. Does dim un ffordd benodol i ddinas, cyrchfan neu wlad wneud hyn ond mae'n arfer cyffredin i gyrchfan gynnig ryw fath o gymorth i gymell trefnydd digwyddiad i lofnodi cytundeb. Bydd wastad rhyw amodau i'r cymorth hwn a bydd yn dibynnu ar anghenion y gyrchfan a blaenoriaethau'r sector. Mae'r rhan fwyaf o gyrchfannau'n alinio'r Cymorth, boed ariannol neu o fath arall, â'u seilwaith digwyddiadau ac â'u prif sectorau diwydiannol.

Dyma wahanol fathau o gymorth y gellir ei gynnig:

- Cymorth ariannol
- Cludiant am ddim neu ratach yn y gyrchfan i'r cynrychiolwyr.
- Dim tâl am logi'r lleoliad, neu ddisgownt mawr
- Cludiant rhad i ac o'r gyrchfan
- Cinio sifig am ddim

- Marchnata am ddim i gefnogi a hyrwyddo'r digwyddiad gan gynnwys brandio a mannau croesawu
- Deunydd marchnata ar gyfer y cynrychiolwyr e.e. mapiau, taflenni

Beth yw cylchdro?

Cylchdro yw'r drefn gylchlynol y mae digwyddiadau'n cael eu cynnal. Yn y cyd-destun hwn, rydyn ni'n edrych pryd gallai Prydain ymddangos yn y cylchdro ar gyfer cynnal y digwyddiad a phryd y gallai Cymru gyflwyno cais neu ymateb i RFP. Gall cylchdro bara o 2 i 12 mlynedd, gan ddibynnu a yw'r cylchdro yn un Prydeinig, Rhyngwladol neu Fyd-eang.

Beth mae chwilio am fusnes yn ei olygu?

Dyma'r hyn sy'n cael ei wneud i nodi a meithrin cwsmeriaid ar gyfer cynnyrch neu wasanaethau busnes. Mae yna asiantaethau sy'n cynnig chwilio am fusnes sy'n addas ar gyfer y lleoliad/cyrchfan o ran ei faint, lleoliad, mynediad ac ati ac sy'n ateb gofynion y digwyddiad. *Lead Generation* yw'r ymadrodd a ddefnyddir yn Saesneg i ddisgrifio hyn.

Beth yw Llysgennad?

Mae llysgennad yn y cyd-destun hwn yn golygu pobl broffesiynol ac arweinwyr yn eu maes sydd â'r cysylltiadau a'r gallu i hyrwyddo cyrchfan fel lle i gynnal cyfarfodydd corfforaethol a chynadleddau ynddo. Maen nhw'n tueddu i fod yn ddylanwadwyr pwysig o ran denu cyfarfodydd/cynadleddau mawr i wlad/cyrchfan.

Mae'r rhan fwyaf o lysgenhadon yn arweinwyr yn eu maes e.e. yn y sectorau meddygol, gwyddonol, ariannol, diwylliannol, celfyddydol, masnachol ac academiaidd. Maen nhw'n bobl â dylanwad yn eu maes ac yn arbenigwyr yn eu diwydiant, yn ymchwilwyr, academyddion a phobl broffesiynol leol, yn aelodau blaenllaw o gymdeithasau a chyrrff proffesiynol ym maes eu harbenigedd.

Beth yw Rhaglen Llysgenhadon?

Mae Rhaglen Llysgenhadon yn uno ac yn cefnogi academyddion a phobl broffesiynol blaenllaw i ddenu a chynnal cynadleddau a digwyddiadau rhyngwladol yn y gyrchfan sy'n cael ei hyrwyddo. Yr amcan yw cysylltu a hyrwyddo arbenigedd, rhoi hwb i economi'r gyrchfan a denu meddyliau blaenllaw i'r gyrchfan.

Beth yw Rhithiol?

Mae digwyddiad rhithiol yn ddigwyddiad sy'n cael ei gynnal ar-lein lle mae cynrychiolwyr yn cwrdd ar blatfform rhithiol (Teams neu Zoom) ac mae'r gwaith yn cael ei wneud ar-lein. Mae papurau'n cael eu rhannu ymlaen llaw yn electronig a bydd unrhyw bleidleisio'n digwydd ar-lein.

Beth yw Digwyddiad Byw?

Mae digwyddiad byw yn golygu digwyddiad lle mae arddangoswyr / cynrychiolwyr yn dod i'r lle ar yr un amser at yr un diben i fod yn bresennol yn bersonol yn y digwyddiad yn fyw.

Beth yw Hybrid?

Mae hybrid yn ddigwyddiad sy'n rhannol fyw ac yn rhannol rithiol. Bydd rhan o'r digwyddiad yn un ffisegol mewn lleoliad gyda siaradwyr a chynrychiolwyr yn bresennol, ond bydd hefyd yn cynnig platfform rhithiol i'r rheini sydd ddim yn gallu dod yn gorfforol i'r digwyddiad.

Geiriau pwysig yn y diwydiant:

ADR	Cyfradd Ddyddiol ar Gyfartaledd (Average Daily Rate)
DDR	Cyfradd Ddyddiol o Gynrychiolwyr (Day Delegate Rate)
Ar y safle	Term sy'n cyfeirio at weithgaredd sy'n cael ei gynnal yn y prif lleoliad.
Archwilio safle	Trip ar gyfer trefnwyr digwyddiad i weld drostynt eu hunain y lleoliad sydd wedi'i ddewis i gynnal y digwyddiad ynddo, i wneud yn siŵr ei fod yn ateb yr holl ofynion.
Bid/Cais	Cynnig sy'n cael ei gyflwyno gan fiwro confensiynau / lleoliad i drefnydd digwyddiad sy'n cynnwys amodau manwl (fel dyddiadau, prisiau, amodau a thelerau ac ati).
Cais am wybodaeth	Y cam cyntaf, cyn cais am gynnig (RFP) pan fydd cwmni'n gofyn i nifer o gyflenwyr posibl am wybodaeth am eu cynnyrch a'u gwasanaethau.
Cofrestru ar y safle	Pan fydd cynrychiolwyr yn cofrestru yn y lleoliad.
Cofrestru ar-lein	Pan fydd cynrychiolwyr yn cofrestru ar y we.
Cwmni cynhyrchu	Cwmni sy'n arbenigo mewn llwyfannu'r adloniant ar gyfer y digwyddiad, gyda pherfformiadau theatrig, cerddorol neu syrcau, ynghyd ag effeithiau arbennig. Gallai'r cwmni gael ei gomisiynu i drefnu'r digwyddiad cyfan.
Cynnig	Ymateb gan gyflenwr i ymholiad gan gleient sy'n nodi manylion y lleoliad, gwesty a gwasanaethau, argaeledd a'r costau.
Di-elw	Mudiadau na fydd yn rhoi ei elw i'w aelodau.
Dylanwadwr	Person sydd â'r grym oherwydd ei awdurdod, gwybodaeth, safle neu gysylltiadau (real neu ganfyddedig), i ddylanwadu ar bobl eraill sy'n gwneud penderfyniadau prynu.
Oddi ar y safle	Term sy'n cyfeirio at weithgaredd sy'n cael ei gynnal ar safle arall heblaw am y prif lleoliad.
Proffesiynol	A siarad yn gyffredinol, corff di-elw a'i nod yw hybu proffesiwn penodol.
Pwyllgor trefnu	Grŵp o bobl sy'n llunio ac yn cynnal y strategaethau a'r polisiau ar gyfer trefnu'r digwyddiad
RevPAR	Refeniw fesul stafell sydd ar gael.
Rhaglen/Taith at Ddiddordeb Arbennig	Trip yn arbennig i safle o ddiddordeb arbennig (diwylliant, celf, bwyd, chwaraeon ac ati) i'r teithiwr.

Seminar	Cyfarfod bach sydd fel arfer yn cael ei drefnu at ddibenion addysgu neu hyfforddi gan sefydliad academaidd, masnachol neu broffesiynol.
Sesiwn llawn	Cyfarfod i bawb pawb sy'n cymryd rhan mewn cynhadledd, naill ai ar y dechrau i drafod materion cyffredinol neu ar y diwedd i drafod y canlyniadau
Trafodaeth fordron	Term a ddefnyddir pan fydd grŵp o bobl yn dod ynghyd i drafod strategaeth, cynllun, syniad, canlyniadau ac ati, gyda phob aelod yn gyfartal.
Trefnydd	Corff neu unigolyn sy'n cynhyrchu digwyddiad.
Trefnydd Cyngresau Proffesiynol	Cwmni sy'n arbenigo mewn trefnu a rheoli cyngresau, cynadleddau, seminarau a digwyddiadau tebyg. (PCO)

Cymdeithasau a Chyrrff Proffesiynol – enghreifftiau

ABPCO	Association of British Professional Conference Organisers
ACTE	Association of Corporate Travel Executives
AEO	Association of Events Organisers
AIM	AIM yw unig gynllun achredu cydnabyddedig yn y DU ar gyfer y diwydiant cyfarfodydd a digwyddiadau
mia	Meetings Industry Association (mia). Safon sy'n cael ei chydnabod trwy'r wlad ar gyfer safoni darparwyr lleoliadau a gwasanaethau yn y diwydiant digwyddiadau, cyfarfodydd a chynadleddau
BVEP	Business Visits & Events Partnership (UK)
EIB	Events Industry Board (UK)
IAPCO	The International Association of Professional Congress Organisers
ICCA	International Congress & Convention Association
MCI	PCO mwya'r byd
MIA	Meetings Industry Association
MPI	Meeting Professionals International, un o gymdeithasau mwya'r diwydiant cyfarfodydd a digwyddiadau.
PCMA	Professional Convention Management Association
SITE	Society of Incentive & Travel Executives

Rydym wedi rhestru isod **10 o'r Mathau Mwyaf Cyffredin o Ddigwyddiadau Corfforaethol**. Mae pob un yn bwysig, ond mae pob un â phwrpas gwahanol ym myd busnes.

Mae cwmnïau'n cynnal digwyddiadau corfforaethol i ddod â gweithwyr, cleientiaid, y cyfryngau a'r cyhoedd at ei gilydd. Mae rhai digwyddiadau corfforaethol yn addysgol; mae eraill yn ymwneud â rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau'r cwmni. Dyma ein rhestr o'r 10 math mwyaf cyffredin o ddigwyddiad corfforaethol.

1. Seminarau a chynadleddau

Seminarau a chynadleddau yw'r mathau mwyaf cyffredin o ddigwyddiadau corfforaethol. Eu prif ddiben yw rhoi gwybodaeth newydd a pherthnasol i westeion am y diwydiant a'r cwmni dan sylw. Mae seminarau'n aml yn ddigwyddiadau byrrach, annibynnol sydd ond yn para rai oriau. Mae cyfranogwyr yn ymgynnull i gyd yn yr un lle, ac ychydig yn unig o siaradwyr sydd fel arfer hefyd.

Mae cynadleddau yn ddigwyddiadau mawr sy'n cynnwys nifer o sesiynau. Gallant fynd ymlaen am ddyddiau, sef un o'r prif resymau pam maen nhw'n gorfod cael eu cynnal mewn Canolfannau Cynadledda, Canolfannau Confensiwn a gwestai Cynadledda. Nid yw'n anghyffredin cynnal sawl sesiwn ar yr un pryd.

2. Sioeau masnach

Dylech feddwl am sioeau masnach fel cyfle i gwmnïau ddangos eu cynnyrch a'u gwasanaethau i gynulleidfa enfawr. Mae'n gyfle i aelodau diwydiant penodol ddod at ei gilydd i drafod ac i gymryd rhan mewn cystadleuaeth iach dros gyfnod o ychydig ddyddiau. Gellir cynnal sioeau masnach lleol mewn arena neu westy lleol, gan roi cyfle i fusnesau gwrdd â llawer o ddarpar gwsmeriaid i gyd ar unwaith.

Mae sioeau masnach fel arfer yn cynnwys gweithdai a chyflwyniadau, yn ogystal â digon o ddigwyddiadau rhwydweithio gyda'r nos. Mae'r cyfryngau a dylanwadwyr poblogaidd hefyd yn cymryd rhan. Mae arddangoswyr yn talu i gael stondin. Mae tâl mynediad weithiau ar gyfer gwesteion, ond ddim yn aml.

3. Rhaglenni cymell ac encilfeydd moethus

Nid yw pob busnes yn gallu fforddio'r math hwn o raglen. Mae cwmnïau proffil uchel yn gwario miliynau ar enciliadau unigryw a rhaglenni cymell i'w rheolwyr mewn cyrchfannau moethus ledled y byd.

Pam? Wel, mae'r digwyddiadau hyn yn rhoi amlygrwydd a chydnabyddiaeth mawr i'r busnesau hyn. Er mai datblygu a chynllunio busnes yw prif sylw'r rhaglenni hyn, rhoddir yr un pwys ar weithgareddau drud a phleserus.

4. Golf

Mae yna reswm pam mae cymaint o bobl yn credu mai golff yw camp pobl fusnes. A hwythau'n ffordd wych o feithrin cysylltiadau a magu perthynas, mae digwyddiadau golff yn ffefryn gan fusnesau. Mae'r amgylchedd a'r awyrgylch hamddenol yn gyfle i westeion fagu cyfeillgarwch a tharo bargaen a allai fod yn amhosibl fel arall. Wedi dweud hynny, gall digwyddiadau golff corfforaethol fod yn anodd eu trefnu a'u cynnal yn gywir. Gall ffioedd fod yn drwm, a gall cyrsiau anodd drechu ambell westai; dewiswch yn ddoeth!

5. Digwyddiadau Gwerthfawrogi

Dyma math llai cyffredin o ddigwyddiad. Mae digwyddiadau gwerthfawrogi (*appreciation events*) yn caniatáu i'r busnes dreulio amser o ansawdd gyda chleientiaid neu weithwyr.

Diben digwyddiadau gwerthfawrogi yw dod â phobl ynghyd i drafod cyfleoedd busnes newydd. Nid yw digwyddiadau gwerthfawrogi yn cael eu trysori hanner cymaint ag y dylent. Er nad ydynt yn dod â busnes nag arian newydd i gwmnïau, maent yn gyfle i'r cwmni ddangos ei ddiwylliant mewn goleuni mwyaf ffafriol.

Bwriedir i ddigwyddiadau gwerthfawrogi fod yn hwyl ac yn hamddenol a dyma'r math lleiaf 'busnesaidd' o'r holl fathau o gyfarfodydd busnes. Mae rhai rhaglenni gwerthfawrogi'n cynnwys cinio a theatr, mordeithiau gyda'r nos, ymweliad â thrac rasio, partïon coctel, dathliadau gwyliau unigryw, a llawer mwy; mae'r posibiliadau'n ddi-ddiwedd.

6. Digwyddiadau carreg filltir (yn hanes cwmni)

Yn yr un modd â digwyddiadau gwerthfawrogi, mae digwyddiadau carreg filltir yn achos dathlu. Gall amrywio yn ôl maint ac amlygrwydd cyhoeddus y cwmni. Gellir eu cyfyngu i weithwyr y cwmni neu gellir gwahodd cleientiaid a ffigurau allweddol hefyd. Gall rhyw fath o sylw yn y cyfryngau a phresenoldeb cyhoeddus helpu i ledaenu'r gair am lwyddiant y busnes.

7. Digwyddiadau datblygu tîm

Digwyddiadau datblygu tîm yw rhai o'r digwyddiadau pwysicaf y dylai pob busnes ystyried eu cynnal o bryd i'w gilydd. Eu prif ddiben yw rhoi hwb i hyder a morâl gweithwyr. Maen nhw'n gyfle unigryw i weithwyr ddod at ei gilydd a dod i ddysgu am ei gilydd mewn amgylchedd hamddenol, nad yw'n waith.

Gan ddibynnu ar fusnes a diddordebau'r gweithwyr, gall digwyddiadau datblygu tîm fod yn amrywiol iawn. O weithgareddau grŵp awyr agored a chorfforol i fentrau dan do unigryw, gall unrhyw beth gael ei ystyried. Chwarae gêm neu noson karaoke. Beth am ginio tîm gyda gwahaniaeth yn un o hoff fwytai'r tîm? Dylai hyfforddiant a gweithdai am emosiynau fod yn ystyriaeth hefyd.

8. Digwyddiadau i lansio cynnyrch

Does dim byd yn fwy cyffrous i fusnes na lansio cynnyrch neu wasanaeth newydd sbon. Nôd digwyddiadau lansio cynnyrch yw rhoi gwybod i weithwyr, cleientiaid a'r cyfryngau am ddatblygiadau diweddera'r cwmni. Y nôd yw creu cyffro ymhlith cwsmeriaid a'r cyfryngau am yr hyn sydd i ddod.

Yn aml, mae digwyddiadau lansio cynnyrch yn dechrau gyda chyflwyniad swancus am y cynnyrch newydd a gair gan swyddogion y cwmni. Bydd digon o gyfle i bobl a'r cyfryngau edrych yn fanylach a gofyn cwestiynau am y cynnyrch ei hun.

Yn aml, mae partïon mawr a gweithgareddau hwyliog yn cael eu cynnal gyda'r digwyddiadau lansio cynnyrch. Os oes angen ysbrydoliaeth arnoch chi, edrychwch ar ddigwyddiadau arbennig Apple.

9. Cyfarfodydd Bwrdd a Chyfranddalwyr

Yn ôl rhai, dyma'r cyfarfodydd mwyaf diflas. Ond mae cyfarfodydd bwrdd a chyfranddalwyr yn hanfodol i bob busnes. Nôd y cyfarfodydd hyn yw hysbysu aelodau'r bwrdd a chyfranddalwyr am berfformiad y cwmni a'u galluogi i wneud penderfyniadau pwysig am ddyfodol y cwmni. Ystyriwch gyfarfodydd bwrdd fel cyfle i drafod strategaethau, nodau a datblygiadau'r busnes.

Gan ddibynnu ar y diwydiant a'r busnes unigol, cynhelir y cyfarfodydd hyn bob blwyddyn, bob chwe mis, neu ambell waith, hyd yn oed bob chwarter. Maen nhw o bob lliw a llun, o gyfarfodydd mewnol bach i ddigwyddiadau mawr o fri.

10. Digwyddiadau elusennol

Digwyddiadau elusennol yw'r cyfrwng codi arian fwyaf pwerus ar gyfer cwmnïau. Mae digwyddiadau elusennol yn hwb anhygoel i ddelwedd gyhoeddus ac yn dangos nad ydych yn ymwneud â busnes yn unig. Nid yn unig y mae digwyddiadau elusennol o fudd i'r gymuned leol, ond maent hefyd yn rhoi hwb i forâl gweithwyr ac yn mynd ag enw'ch cwmni ar led.

Gall y digwyddiadau hyn gynnwys nifer o weithgareddau, a bydd y rhan fwyaf ohonynt yn troi o amgylch y gymuned leol. Yn aml, mae angen i fusnesau wneud defnydd da o'u rhwydwaith er mwyn sicrhau bod pobl yn dod i wybod am y digwyddiad.

Cyhoeddiadau, gwefannau, digwyddiadau ac arddangosfeydd defnyddiol

Mae gan y diwydiant lawer o gyhoeddiadau a thanysgrifiadau sydd ar gael ichi eu darllen a'u lawrlwytho, megis **C&IT**, **Conference News**, ac **M&IT Magazine** ymhlith llawer o rai eraill.

Mae'r diwydiant yn cynnal nifer o ddigwyddiadau a chyfleoedd bob blwyddyn, o arddangosfeydd mawr i ddigwyddiadau bach ac agosatoch fel IMEX, IBTM, The Meeting Show, ICCA Chapters a sesiynau trafod rhanbarthol i gyngres flynyddol yn ogystal â Fforymau m&i a Fforymau C&IT.

IMEX	https://www.imex-frankfurt.com/
The Meeting Show	https://www.themeetingsshow.com/
IBTM	https://www.ibtmworld.com/en-gb.html
m&i Forums	https://www.mi-forums.com/
IMEX America	https://www.imexamerica.com/

Dylech wybod eich diwyg

Mae'n bwysig eich bod yn gwybod pa ddiwyg y gall trefnydd ei ddewis ar gyfer ei ddigwyddiad busnes.



MeetInWales

Mae Meet in Wales yn rhan o dîm Digwyddiadau Llywodraeth Cymru, yn hyrwyddo Cymru fel lle i gynnal cyfarfodydd, rhaglenni cymell, digwyddiadau datblygu tîm a chynadleddau. Rydyn ni'n rhoi cyngor di-duedd a di-dâl ar amrywiaeth o gynnyrch a lleoliadau.

Mae Cymru, er ei bod yn cael ei hysbrydoli gan y gorffennol, yn edrych tua'r dyfodol. Mae'n lle sy'n cyfuno cenedlaethau o wybodaeth, arbenigeddau a chroeso â brandiau sy'n cael eu cydnabod trwy'r byd ac ag enw da, na enillwyd ar chwarae bach, am fod yn arloesol. Fel cyrchfan sy'n tyfu ar gyfer digwyddiadau busnes, gyda ffocws ar y dyfodol, fe gewch chi yma rai o'r lleoliadau mwyaf modern ac amrywiaeth eang o westai a lletygarwch, bob un ag ymwybyddiaeth o le. P'un a ydych yn trefnu cyfarfod corfforaethol preifat bach, rhaglen gymell neu ddigwyddiad datblygu tîm gyda gwahaniaeth, lansiad cyffrous ar gyfer cynnyrch neu gynhadledd ryngwladol fawr, bydd ein gwasanaeth cymorth a'n hagwedd ymarferol yn eich helpu i gael profiad gwirioneddol unigryw.

Fideos cymorth

This is Business Events: <https://youtu.be/4xafsE2pGSg>

This is Wales: <https://youtu.be/naPvmoZjhz4>

Croeso – Welcome to Wales: <https://youtu.be/Bp05L9PJxnU>